**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Bridgend County Borough Council**

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / : 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 9 Mawrth 2023

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Yr Angel, Penybont Ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 15 Mawrth 2023** am **16:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 5 - 42
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 18/01/2023 a 08/02/2023

4. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
   (i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
   (ii) Aelodau'r Cabinet
   (iii) Prif Weithredwr

5. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

6. Datganiad Polisi Tâl - 2023/2024 — 43 - 100

7. Trafodion Partïon Cysylltiedig 2022-23 a Datganiad Cyfrifon — 101 - 108

8. Polisïau Pensiwn — 109 - 138

9. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023/24 — 139 - 174

10. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi 175 - 180

11. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

**Cynghorydd Richard Collins i'r Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Croesewais y cyfle i weld y gwaith cyffrous sydd ar y gweill i adnewyddu a gwella Canolfan Chwaraeon Maesteg. A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar gynnydd i gwblhau'r cynllun."

**Cynghorydd Steven Easterbrook i'r Arweinydd**

Mae cwmnïau rheoli sy'n gweithredu ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer trigolion ystadau tai newydd wedi bod yn cymryd ffi reoli ers nifer o flynyddoedd, ond eto wedi methu â gwneud y gwaith cynnal a chadw. Mae'r materion sydd wedi codi ac y mae angen eu datrys yn amrywio o oleuadau stryd, atgyweirio ffyrdd, ysgubo sbwriel dail o gylïau a chynnal a chadw ffiniau cloddiau. Nid yn unig codir Treth y Cyngor ar breswylwyr ar yr un gyfradd â phob deiliad tŷ arall ond maent hefyd yn destun y ffi ychwanegol hon i gwmni cynnal a chadw trydydd parti, yn aml mae problemau i breswylwyr sy'n cysylltu â'r cwmnïau hyn â chysylltiadau o fewn y cwmni nad ydynt yn ymateb i e-byst, ac eto mae disgwyl o hyd i drigolion dalu'r ffi bob blwyddyn sy'n amrywio o dŷ i dŷ. A yw'r Arweinydd yn teimlo bod hyn yn dderbyniol bod trigolion yn y Fwrdeistref hon yn cael eu codi ddwywaith am yr un gwasanaeth a gynigir gan ddau endid ar wahân, pan ymddengys nad yw'r naill na'r llall yn darparu gwasanaeth y mae trigolion yn talu amdano.

**Cynghorydd Martin Williams i'r Arweinydd**

Mae cyffordd 36 yr M4 yn dagfa ddrwg-enwog sy'n achosi tagfeydd, yn cyfyngu ar gyfleoedd datblygu a buddsoddi i ogledd ein sir ac yn achosi trallod i drigolion mewn cymunedau cyfagos, sy'n cael eu defnyddio fel rhedfeydd llygod mawr cynyddol beryglus. A allai'r Arweinydd amlinellu pa ymdrechion y mae'r awdurdod hwn wedi'u gwneud i wella cyffordd 36 a'r rhwydwaith priffyrdd cyfagos (gan gynnwys ailystyried ffordd osgoi Bryncethin a oedd unwaith yn cael ei chynnig) i liniaru'r problemau traffig unwaith ac am byth.

**Cynghorydd Freya Bletsoe i'r Aelod Cabinet dros Adfywio**

Yn sgil y cyhoeddiad diweddar y bydd Pafiliwn y Grand Porthcawl yn gweld buddsoddiad sylweddol gan y Llywodraeth Ganolog yn "lefelu cyllid" a'r gwelliannau parhaus i Neuadd y Dref Maesteg, pa ymrwymiad fydd yr aelod cabinet dros adfywio yn ei roi i holl drigolion pob cornel o'n Bwrdeistref y byddwn yn gweld ein sir gyfan yn "gwastatáu" a fydd yn sicrhau buddsoddiad llawn a theg ym mhob rhan o dreftadaeth ddiwylliannol ein Bwrdeistrefi?

12. Rhybudd o Gynnig a Gynigiwyd gan y Cynghorydd Jane Gebbie ac eiliwyd gan y Cynghorydd Alex Williams

**CYNNIG AR GYFLOGAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL I'R CYNGOR: CODIAD CYFLOG PRIODOL WEDI'I ARIANNU'N LLAWN I WEITHWYR Y CYNGOR A GWEITHWYR YSGOL**

**Mae'r cyngor hwn yn nodi:**

- Mae Llywodraeth leol wedi dioddef gostyngiad ariannol gan y llywodraeth ganolog o fwy nag 50% ers 2010. Rhwng 2010 a 2020, fe wnaeth cynghorau weld gostyngiad o 60 ceiniog ymhob £1 y maen nhw'n derbyn gan y llywodraeth ganolog yn San Steffan.
- Mae ymchwil newydd diweddar gan UNSAIN yn dangos fod cynghorau ar draws Lloegr, Cymru a'r Alban yn wynebu diffyg cyllid cyfunol o £3bn erbyn blwyddyn

ariannol 2023/24 a bwlch cyllid cronnol o £5bn erbyn 2024/25.

- Ar lefel leol, mae Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud arbedion gwerth bron i £73m ers 2010/2011. Mae hyn yn cynrychioli bron i 23% o gyllideb refeniw net presennol y Cyngor.
- Fe wnaeth cynghorau arwain y ffordd yn ystod cyfnod y pandemig Covid-19, gan ddarparu ystod o wasanaethau a chefnogaeth i'n cymunedau. Mae llywodraeth leol wedi dangos fwy nag erioed pa mor angenrheidiol yw ein gwasanaethau. Ond mae cyfnod Covid wedi arwain at gynnydd anferthol mewn gwariant a cholli incwm, ac wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae awdurdodau ac ysgolion lleol angen llawer mwy o gefnogaeth gan San Steffan. Nid yw cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth San Steffan ar drefniadau cyllido yn ymwneud ag ysgolion wedi bod o unrhyw gymorth.
- Fe gadwodd gweithwyr y cyngor a gweithwyr ysgol ein cymunedau yn ddiogel dros gyfnod y pandemig, gan roi eu hunain roi eu hunain dan amodau o risg sylweddol ambell waith wrth iddyn nhw weithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd, cynnal a chadw tai, sicrhau bod ein plant yn parhau i gael eu dysgu, ac edrych ar ôl bobl hŷn a bregus. Ers 2010, mae gweithlu llywodraeth leol wedi dioddef blynyddoedd o ataliaeth cyflog gyda'r mwyafrif o'r cyfraddau cyflog yn colli o leiaf 25 y cant o werth ers 2009/10. Mae gweithwyr yn wynebu'r argyfwng costau byw gwaethaf ers cenhedlaeth, gyda chwyddiant yn cyrraedd 10% fel bod angen i lawer wneud dewisiadau amhosib rhwng prynu bwyd, gwresogi neu hanfodion eraill. Mae hyn yn sefyllfa ofnadwy i unrhyw un gael eu hunain ynddi.
- Yn ystod yr un cyfnod, mae gweithwyr wedi profi llwyth gwaith cynyddol ac ansicrwydd swydd yn barhaus. Ers Mehefin 2010, mae 900,000 o swyddi wedi eu colli ym myd llywodraeth leol ar draws y DU - gostyngiad o fwy na 30 y cant. Gellir dadlau fod llywodraeth leol wedi colli mwy o swyddi'n nag unrhyw ran arall o'r sector cyhoeddus.
- Bu effaith anghyfartal ar ferched, gyda merched yn ffurfio mwy na thri chwarter o weithlu llywodraeth leol.
- Mae ymchwil diweddar yn dangos pe bai Llywodraeth San Steffan yn ariannu'n llawn cais yr undebau am godiad cyflog ar gyfer 2023 byddai tua hanner yr arian yn cael ei adennill drwy dderbyn refeniw o'r trethi yn ogystal â llai o wariant ar fudd-daliadau a chredydau treth, a chynnydd mewn gwariant defnyddwyr yn yr economi leol.

**Mae'r cyngor o'r farn:**

1. Bod ein gweithwyr yn weithwyr sy'n serennu o ran eu gwasanaeth i'r cyhoedd. Maen nhw'n cadw ein cymunedau'n lan ac yn ddiogel, yn edrych ar ôl y rhai mewn angen ac yn cynnal ein trefi a phentrefi.
2. Heb broffesiynoldeb ac ymroddiad ein gweithwyr, fydden ni ddim yn gallu cynnig y gwasanaethau y mae ein trigolion yn dibynnu arnyn nhw i'w cyflawni gan y cyngor.
3. Mae gweithwyr llywodraeth leol yn haeddu codiad cyflog sy'n adlewyrchu'r gwir sefyllfa a'r gwir gostau. Mae angen i Lywodraeth San Steffan gymryd cyfrifoldeb ac ariannu'r cynnydd hwn yn llawn. Ni ddylid gosod y baich ar awdurdodau lleol lle mae eu cyllid yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddelio â'r effeithiau ar ein gwasanaethau yn sgil pandemig Covid-19.

**Mae'r cyngor hwn wedi penderfynu**:

A. Cefnogi'r cais am godiad cyflog a gyflwynwyd gan UNSAIN, GMB ac Unite ar ran gweithwyr y cyngor a gweithwyr ysgol, ac i weld cynnydd yn y cyflog sef yr RPI + 2%.

B. Galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol i bwyso ar y llywodraeth ganolog i ariannu cais codiad cyflog yr NJC.

C. Ysgrifennu at y Canghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i alw am godiad cyflog i weithwyr llywodraeth leol gydag arian newydd gan y llywodraeth ganolog.

D. Cyfarfod â chynrychiolwyr undeb y NJC yn lleol i roi ar ddeall y gefnogaeth am yr hawliad cyflog ac ystyried ffyrdd ymarferol gall y cyngor gefnogi'r ymgyrch.

E. Annog pob gweithiwr llywodraeth leol i ymuno ag undeb.

13. Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

| Cynghorwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| S Aspey | J Gebbie | J E Pratt |
| H T Bennett | W R Goode | E Richards |
| A R Berrow | RM Granville | R J Smith |
| F D Bletsoe | H Griffiths | JC Spanswick |
| S J Bletsoe | S J Griffiths | I M Spiller |
| JPD Blundell | D T Harrison | T Thomas |
| E L P Caparros | M L Hughes | JH Tildesley MBE |
| N Clarke | D M Hughes | G Walter |
| RJ Collins | RM James | A Wathan |
| HJ David | P W Jenkins | A Williams |
| C Davies | M R John | AJ Williams |
| C L C Davies | M Jones | HM Williams |
| P Davies | MJ Kearn | I Williams |
| S Easterbrook | W J Kendall | MJ Williams |
| M J Evans | M Lewis | R Williams |
| N Farr | J Llewellyn-Hopkins | E D Winstanley |
| P Ford | RL Penhale-Thomas | T Wood |